Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru
Welsh Ambulance Services University NHS Trust

# WAST Yn Cysylltu

**GORFFENNAF 2024**

I Gefnogi. I Wasanaethu. I Achub.

## Neges gan y Prif Weithredwr

Helo, a chroeso i rifyn mis Mehefin o WAST yn Cysylltu. Roedd mis Mai yn fis pwysig wrth i ni lansio technoleg galwadau ac asesu clinigol arloesol yn ein canolfannau cyswllt GIG 111 Cymru. Gyda dros filiwn o alwadau i 111 bob blwyddyn, mae mor bwysig ein bod yn defnyddio technoleg sy'n rhoi profiad da i gleifion, ac mae'r system newydd hon yn galluogi cynghorwyr iechyd 111 i flaenoriaethu a chyfeirio cleifion yn well at y llwybr gofal mwyaf priodol. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i gydweithwyr ar draws y sefydliad, mewn byrddau iechyd a thu hwnt a weithiodd ar y cyd i roi'r system newydd ar waith, sydd wedi helpu i'n harwain ymlaen ar ein taith i fod yn 'borth' i'r gofal neu'r cyngor cywir yn y lle iawn, bob tro, ac mae'n galluogi ein model ymateb clinigol i esblygu ymhellach er mwyn i ni allu diwallu anghenion penodol claf. Ni fydd llawer o bobl yn gwybod ein bod yn cael ein cefnogi gan elusen wych, sy'n codi arian i ariannu mentrau sy'n hybu iechyd, lles a diogelwch ein pobl, cleifion a chymunedau. Disgwyliwch weld mwy am elusen Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn y misoedd nesaf wrth i'n Pennaeth Elusen cyntaf ddechrau yn ei swydd a chychwyn ar ymarfer cyffrous i godi proffil yr elusen. Yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, byddwn yn dathlu staff a gwirfoddolwyr sydd wedi gwasanaethu am gyfnod hir yn ein Gwobrau Gwasanaeth Hir blynyddol. Bydd cydweithwyr sydd ag 20, 30, 40 a hyd yn oed 50 mlynedd o wasanaeth GIG yn cael eu cyflwyno â medalau yn ystod un o dri digwyddiad ledled Cymru, a fydd yn gyfle gwych i ddathlu enaid Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – ei bobl. Gwn y byddwch yn ymuno â mi i estyn llongyfarchiadau enfawr i gydweithwyr ar hyd eu gwasanaeth. Cymerwch ofal.



**Jason Killens**
Prif Weithredwr
Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

## Cipolwg ar Berfformiad

### Mehefin 2024

Bu **34,931** o ddigwyddiadau 999

Mynychodd ein criwiau **5,137** o alwadau coch lle'r roedd bywyd mewn perygl uniongyrchol

Fe wnaeth ein gwasanaeth brys gludo **13,799** o bobl i'r ysbyty

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Cludiant Cleifion Di-frys **45,262** o deithiau

Bu **64,689** o alwadau i GIG 111 Cymru

Mynychwyd **777** o ddigwyddiadau gan Ymatebwyr Cyntaf Cymunedol Gwirfoddol

Cwblhaodd ein Gwasanaeth Ceir Gwirfoddol **3,600** o deithiau

# Tu ôl i'r Penawdau




**"Mae'n atgof mor werthfawr" - mae'r gwasanaeth ambiwlans a thîm yr hosbis yn helpu i wireddu dymuniad olaf y claf**
Pan oedd Paul Taylor, 51, yn derbyn triniaeth gofal lliniarol gartref ar ôl i diwmor ei ymennydd fynd yn derfynol wael, nid oedd yn meddwl y byddai'n bosibl mynd i wylio Peter Kay Live. Fodd bynnag, ar ôl i Paul a'i wraig Emma Taylor ddweud wrth eu tîm Hosbis yn y Cartref a oedd yn gofalu am Paul am y tocynnau, cysylltodd Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd Emma Williams a'r Arweinydd Tîm Karen Parry o â thîm y 'Wish' yr Ymddiriedolaeth i weld a allent helpu. Dywedodd Emma, o Dreffynnon, Sir y Fflint: "Doedden ni ddim yn meddwl y byddai unrhyw bosibilrwydd i fynd i'r sioe gan fod Paul yn gaeth i'w wely gartref. "Cawsom ychydig dros wythnos cyn y sioe a gwirfoddolodd dau aelod o'r criw ambiwlans Cara Lyons a Leah Reading i'n cael ni yno ac yn ôl. "Hebddyn nhw ni fyddem byth wedi gallu mynd." Cliciwch yma i ddarllen mwy.

**Fe wnaeth dyn o Gaerdydd fwy na 100 o alwadau camdriniol i'r gwasanaethau brys**
Gwnaeth Adil Hassan, 36, o Sgwâr Loudoun, Caerdydd, fwy na 100 o alwadau i Wasanaethau Ambiwlans Cymru rhwng 10 a 16 Mai, lle byddai'n gweiddi, rhegi ac yn defnyddio iaith rywiol eglur. Yn Llys Ynadon Caerdydd ddydd Gwener, fe blediodd yn euog i'r defnydd cyson o rwydwaith cyfathrebu cyhoeddus i achosi annifyrrwch, anghyfleustra neu orbryder. Dywedodd Laura Charles, Rheolwr Rheoli ar Ddyletswydd gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: "Yn ystod fy holl flynyddoedd yn y gwasanaeth ambiwlans, dyma'r cam-drin geiriol gwaethaf a glywais erioed o bell ffordd. "Wrth ffonio 999, nid oedd Hassan yn ffonio i ofyn am help ar gyfer argyfwng meddygol. "Roedd e'n ffonio dim ond i gam-drin y derbynwyr galwadau neu i fentio am rywbeth oedd yn ei boeni. "Gall cam-drin yn eich clust fod yr un mor niweidiol, os nad yn fwy niweidiol, na chael eich cam-drin wyneb yn wyneb." Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.





**Un o hoelion wyth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn cael ei gydnabod yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin**
Mae Mike Jenkins, Parafeddyg Ymgynghorol ac Arweinydd Clinigol Rhanbarthol, wedi ennill Medal Gwasanaeth Ambiwlans y Brenin am wasanaeth nodedig. Fis diwethaf, dathlodd Mike, o Gaerdydd, 40 mlynedd yn y gwasanaeth ambiwlans. Dywedodd Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaeth Ambiwlans Cymru: "Rydym wrth ein bodd ac yn hynod o falch bod Mike wedi cael ei gydnabod yn Rhestr Anrhydeddau Pen-blwydd y Brenin. "Yn ystod ei oes o wasanaeth, mae wedi parhau'n ddiysgog yn ei ymrwymiad i wella diogelwch cleifion, canlyniadau clinigol a phrofiad y claf. "Mae ei ymroddiad i ddatblygu eraill ac annog cenedlaethau'r dyfodol i swyddi arweinyddiaeth glinigol i helpu i gyflawni'r safonau gofal uchaf hefyd wedi bod yn rhagorol. Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.

**Canmoliaeth y Prif Weithredwr am y Samariad Trugarog**
Roedd Owen Mansel, 19 oed o Sir Gaerfyrddin, yn cludo aelod o'r cyhoedd oedd wedi cwympo i'r ysbyty pan ddaeth ar draws gwrthdrawiad traffig y ffordd ym Mhorth Tywyn. Am ei weithredoedd difeddwl i helpu, ers hynny mae wedi derbyn gwobr gan yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd y Prif Weithredwr Jason Killens: "Dangosodd Owen ymdrech ryfeddol. "Mae nid yn unig stopio, ond cynorthwyo ac aros tra bod rhywun mewn angen dirfawr, yn ganmoladwy, ac mae gwneud hyn ddwywaith mewn un diwrnod yn wirioneddol ysbrydoledig. "Fe wnaeth gweithredoedd Owen helpu i reoli ac asesu'r sefyllfa cyn i ragor o gymorth cyrraedd a sicrhau bod y driniaeth orau bosibl ar gael. "Rwy'n estyn fy niolchgarwch i Owen yn yr hyn a oedd yn amlwg yn swydd anodd a thrallodus iawn." Cliciwch **yma** i ddarllen mwy.





**Gwobr HPMA Cymru am ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**
Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ennill Gwobr HPMA Cymru 2024 am ei menter Gwyliwr i Ymyrrwr, a luniwyd nid yn unig i godi ymwybyddiaeth ymhlith staff o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ond hefyd i roi arfau ymarferol iddynt herio gwahaniaethu ac ymddygiad amhriodol. Dywedodd Paola Spiteri, Arweinydd Cadw'r Ymddiriedolaeth: "Pan fydd pobl ar eu trai isaf, ni yw'r bobl maen nhw'n troi atynt, felly rydym yn disgwyl y safonau proffesiynol uchaf gan bawb yn ein sefydliad. "Diolch byth, mae mwyafrif ein pobl sy'n gweithio'n galed yn ategu ein gwerthoedd a'n hymddygiad, ond mae bob amser fwy y gallwn ei wneud i hyrwyddo diwylliant sefydliadol cynhwysol, ac mae'r fenter hon yn symbol o'n hymrwymiad i wneud hynny. "Trwy ddarparu staff nid yn unig â'r wybodaeth ond y sgiliau ymarferol i ymyrryd yn ddiogel mewn sefyllfa broblemus, rydym yn trawsnewid o wylwyr goddefol i ymyrwyr rhagweithiol." Cliciwch **yma** i ddarllen rhagor.

## Cymryd Rhan

**Cyfle: Cyfarwyddwr Anweithredol**
Mae penodi Cyfarwyddwr Anweithredol (Academaidd) i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth yn hollbwysig wrth i ni geisio cryfhau ein cysylltiadau academaidd, arloesi a diwydiant. Cliciwch **yma** i wneud cais.



**Ymunwch â chyfarfod Bwrdd deufisol yr Ymddiriedolaeth**
Rydym yn eich gwahodd i ymuno drwy Zoom i wrando ar uwch arweinwyr yn trafod agenda llawn eitemau, gan gynnwys adroddiadau deufisol gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr a chynllun tymor canolig integredig yr Ymddiriedolaeth a stori profiad y claf. Cliciwch **yma** i ddarganfod mwy.



## Ymgyrch y Mis

